# Agenda - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mercher, 19 Mehefin 2019

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Bethan Davies**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6372

SeneddCyllid@cynulliad.cymru

**Penderfynodd y Pwyllgor ar 5 Mehefin 2019 i wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod.**

**1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

**2 Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru): Trafod yr adroddiad drafft**

(09:00 - 09:30) (Tudalennau 1 - 26)

Papur 1 - Adroddiad drafft ar y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)

**3 Trethiant rhyngwladol a chraffu ar drethi - Papur cefndirol**

(09:30 - 09:45) (Tudalennau 27 - 34)

Papur 2 - Papur cefndirol: Trethiant rhyngwladol a chraffu ar drethi

**Egwyl: 09:45 - 10:00**

**4 Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol: Briffio ar ragolygon treth**

(10:00 - 11:00) (Tudalennau 35 - 45)

Robert Chote, Cadeirydd, y Pwyllgor Cyfrifoldeb Cyllidebol

Andy King, Pwyllgor Cyfrifoldeb Cyllidebol

Shaun Butcher, Dirprwy Bennaeth Staff

Dr Paul Mathews, Uwch Ddadansoddwr

Marcus Hanson, Dadansoddwr

Papur 3 – Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol

Papur 4 – Cylch Gorchwyl rhwng Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol

Papur 5 – Fframwaith Ariannol rhwng Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol

**Egwyl: 11:00 – 11:10**

## 5 Ymchwiliad i ffynonellau cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru: Briff preifat gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a Swyddfa Archwilio Cymru

(11:10 – 12:10) (Tudalennau 46 – 65)

Simon Reason, Cyfarwyddwr, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol

Daniel Fairhead, Pennaeth Archwilio, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol

Matthew Mortlock, Cyfarwyddwr – Archwilio Perfformiad, y Swyddfa Archwilio Cymru

Mike Usher, Arweinydd Sector – Iechyd a Llywodraeth Ganolog, y Sywddfa Archwilio Cymru

Papur 6 – Cyflwyniad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol i'r Ymchwiliad i ffynonellau cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru

Briff ymchwil

## 6 Ymchwiliad i ffynonellau cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru: Trafod briff preifat

(12:10 – 12:25) (Tudalennau 66 – 67)

Papur 7 – Llythyr gan Brif Ysgrifennydd y Trysorlys – 6 Mehefin 2019

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth: rhwng Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol

## Y prif gyfrifoldebau a'r cefndir deddfwriaethol

1. Nodir y prif gyfrifoldebau cyllidol mewn perthynas â phwerau treth datganoledig newydd Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol mewn deddfwriaeth, gan gynnwys Deddf Cyfrifoldeb am Gyllidebau ac Archwilio Cenedlaethol 2011, Deddf Cymru 2014, y Papur Gorchymyn: *Bil Cymru: Atebolrwydd a Grymuso Ariannol*[1] (a gyhoeddwyd ochr yn ochr â Bil Cymru yn 2014), a Deddf Cymru 2017. Nodir cyfrifoldebau eraill yn y cytundeb ar y fframwaith cyllidol (Rhagfyr 2016) rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

2. O dan delerau'r cytundeb ar y fframwaith cyllidol, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru roi trefniadau ar waith ar gyfer llunio rhagolygon annibynnol ar gyfer y trethi datganoledig. Yn unol â hyn, gwnaed trefniant rhwng Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol iddi ddarparu'r rhagolygon annibynnol o refeniw o drethi datganoledig a gaiff eu llunio ochr yn ochr â chyllidebau Llywodraeth Cymru. Ceir manylion pellach am y trefniant hwn yn y Cylch Gorchwyl cysylltiedig.

3. Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am ddatblygu polisïau a rhoi pwerau trethu newydd ar waith wrth iddynt gael eu datganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybodaeth ariannol reolaidd i'r Cynulliad, Llywodraeth y DU, y Swyddfa Ystadegau Gwladol a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol sy'n nodi ei chynlluniau ar gyfer trethu, benthyca a gwario a bydd yn sicrhau y caiff derbyniadau alldro o'r trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn eu cyhoeddi.

4. Yn ogystal â'r trefniant a nodwyd ym mharagraff 2, bydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn parhau i lunio'r rhagolygon economaidd a chyllidol i'r DU gyfan ac adrodd ar gyllid cyhoeddus y DU o bob lefel o'r llywodraeth, gan gynnwys refeniw o drethi sydd wedi'u datganoli i Gymru. Mae deddfwriaeth a'r cytundeb ar y fframwaith cyllidol yn rhoi hawl i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol weld unrhyw wybodaeth berthnasol o'r tu mewn i Lywodraeth Cymru er mwyn cyflawni prif ddyletswyddau'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, sy'n cynnwys yr hawl i gael

[1] *Bil Cymru: Atebolrwydd a Grymuso Ariannol*, Mawrth 2014, Cm 8838.

unrhyw gymorth ac esboniadau. Pwyllgor Cyfrifoldeb Cyllidebol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol fydd yn penderfynu ar unrhyw farn a thybiaethau terfynol a ddefnyddir yn rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ac mewn gwaith dadansoddi arall.

5. Nid yw'r Memorandwm hwn yn gyfystyr â chytundeb cyfreithiol rwymol. Gall llofnodwyr y memorandwm hwn ofyn am adolygiad o'i gynnwys a'r ffordd y mae'n cael ei roi ar waith ar unrhyw adeg.

## Diben y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn

6. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn nodi'r egwyddorion sy'n sail i'r trefniadau gwaith sydd eu hangen i gyflawni prif gyfrifoldebau Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, gan gynnwys:

- prosesau rhannu gwybodaeth effeithiol a chydberthnasau gwaith cydweithredol rhwng y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Llywodraeth Cymru a chyrff eraill sy'n cyfrannu at ragolygon;
- darparu rhagolygon o ansawdd digonol mewn da bryd er mwyn galluogi Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i lunio cyllidebau yn effeithiol ac yn effeithlon;
- sicrhau bod rhagolygon yn ddigon tryloyw ac wedi'u hesbonio'n dda fel y gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Senedd y DU, rhanddeiliaid eraill a'r cyhoedd graffu arnynt a'u cymharu.

## Cydgysylltu'r broses

7. Bydd Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn rhannu unrhyw wybodaeth berthnasol sydd ei hangen er mwyn i'r llall gyflawni ei chyfrifoldebau, gan gynnwys rhagolygon cyn mesurau a nodiadau esboniadol. Ni fydd y naill sefydliad na'r llall yn cyhoeddi deunydd a rennir gan y llall drwy'r prosesau cyfnewid hyn heb geisio a chael ei ganiatâd ymlaen llaw.

8. Fel rhan o'r broses datblygu rhagolygon bydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn trefnu cyfarfodydd herio ar gyfer rhagolygon cyn mesurau o drethi datganoledig. Mae'n rhaid i swyddogion Llywodraeth Cymru gymryd rhan mewn cyfarfodydd herio fel sy'n ofynnol gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol er mwyn esbonio eu gwaith dadansoddi neu eu rhagolygon. Yn yr un modd, ar gais Llywodraeth Cymru, mae'n rhaid i swyddogion y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol fynd i gyfarfodydd herio a drefnir gan Lywodraeth Cymru. Bydd y ddau sefydliad yn rhannu eu rhagolygon, eu papurau perthnasol a, lle y bo angen, benderfynyddion macroeconomaidd cyn y cyfarfodydd herio.

9. Bydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn cyflawni ei chyfrifoldebau o ran llunio adroddiadau a'u cyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd y DU yn ôl yr angen. Wrth wneud hyn, bydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn ceisio darparu gwybodaeth reolaidd sy'n esbonio sut a pham mae ei rhagolygon diweddaraf yn wahanol i'r rhai a gyhoeddwyd yn flaenorol, os yw hynny'n wir. Bydd yr adroddiadau yn ceisio gwella dealltwriaeth y cyhoedd o'r methodolegau rhagamcanu a'r farn a'r tybiaethau sydd wedi'u defnyddio.

## Cyfnewid gwybodaeth yn rheolaidd

10. Mae gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yr hawl i weld yr holl wybodaeth swyddogol sy'n berthnasol i'w dadansoddiad mewn modd amserol.[2] Er nad oes i hawl Llywodraeth Cymru i weld gwybodaeth o'r fath yr un sail statudol, bydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, yn amodol ar ofynion cytundebau rhannu gwybodaeth eraill,[3] yn ei thro, yn rhannu gwybodaeth lawn ac amserol sy'n berthnasol i ddadansoddiad Llywodraeth Cymru ar draws ei chyfrifoldebau mewn perthynas â threthi Cymru. Caiff gwybodaeth y gofynnir amdani gan Lywodraeth Cymru neu'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ei darparu o fewn cyfnod rhesymol o amser, yn ogystal ag unrhyw gymorth sydd ei angen i'w deall.

11. Bydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a Llywodraeth Cymru, a phob corff sy'n eu cynorthwyo, yn sicrhau bod gwybodaeth a rennir yn wrthrychol ac o'r ansawdd angenrheidiol er mwyn i'r naill a'r llall allu cyflawni eu cyfrifoldebau yn foddhaol.

12. Ni fydd gwybodaeth sy'n cael ei chyfnewid yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol am drethdalwyr. Ni fydd angen i Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol na Llywodraeth Cymru gael gwybodaeth gyfrinachol am drethi yn rheolaidd er mwyn iddynt gyflawni eu swyddogaethau. Os gofynnir am wybodaeth gyfrinachol am drethi, sy'n annhebygol o ddigwydd, dim ond os bydd darpariaeth yn llwyr fodloni'r meini prawf ar gyfer ei rhyddhau, fel y'u nodir yn y ddeddfwriaeth berthnasol, y caiff ei darparu.[4]

13. Bydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn rhannu gwybodaeth am y tybiaethau y mae wedi'u gwneud a'r farn y mae wedi'i llunio mewn perthynas â chostau polisïau Llywodraeth y DU sy'n effeithio ar y rhagolygon ar gyfer y trethi datganoledig â Llywodraeth Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhannu

---

[2] Adran 65 o Ddeddf Cymru 2017 ac adran 9 o Ddeddf Cyfrifoldeb am Gyllidebau ac Archwilio Cenedlaethol 2011.

[3] Megis y *Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Trysorlys EM, yr Adran Gwaith a Phensiynau a Chyllid a Thollau EM.*

[4] Yn arbennig adran 18 o Ddeddf Comisiynwyr Cyllid a Thollau 2005 ac adran 18 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016.

gwybodaeth berthnasol am ei chostau polisi ei hun lle mae'r rhain yn effeithio ar y trethi datganoledig, neu unrhyw wybodaeth neu waith dadansoddi am effaith newidiadau polisi ar y refeniw o drethi a gedwir yn ôl i Lywodraeth y DU, â'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol.[5]

[5] Er enghraifft, pe bai Llywodraeth Cymru yn newid cyfradd treth incwm Cymru, byddai hyn yn debygol o ysgogi ymatebion ymddygiadol a fyddai'n effeithio ar refeniw Llywodraeth y DU o dreth incwm a chyfraniadau Yswiriant Gwladol. I gael rhagor o wybodaeth am ryngweithio ac ymatebion ymddygiadol gweler dogfen y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, *Briefing Paper 6: Policy costings and our forecast*.

# Cylch Gorchwyl

# Darparu rhagolygon ar gyfer trethi Cymru gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol i Lywodraeth Cymru

## Cyflwyniad

### *Diben a chefndir*

1. Diben y ddogfen hon yw nodi'r trefniadau rhwng y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu rhagolygon ar gyfer refeniw o drethi datganoledig Cymru a gweithgarwch cysylltiedig.

2. Rhoddodd Pwyllgor Cyfrifoldeb Cyllidebol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid bryd hynny gymeradwyaeth ffurfiol i sefydlu'r trefniadau arfaethedig ym mis Gorffennaf 2018. Rhoddwyd cymeradwyaeth bellach i'r *Cylch Gorchwyl* hwn sy'n nodi'r trefniadau gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, a bwriedir iddo gael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r *Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth* diwygiedig rhwng y ddau sefydliad.

### *Sail y cylch gorchwyl*

3. Mae'r cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru (y fframwaith cyllidol) yn nodi'r sail ar gyfer sefydlu'r trefniadau a nodir yn y *Cylch Gorchwyl* hwn. O ran 'cyfrifoldebau sy'n ymwneud â llunio rhagolygon', mae paragraff 52 yn nodi:

    > "bydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn parhau i lunio'r holl ragolygon economaidd a chyllidol ar gyfer y DU gyfan i lywodraeth y DU (sy'n cynnwys refeniw o drethi sydd wedi'u datganoli i Gymru). Bydd Llywodraeth Cymru yn gallu penderfynu a fydd yn defnyddio rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol neu a fydd yn rhoi trefniadau annibynnol eraill ar waith ar gyfer llunio rhagolygon. Am gyfnod byr bydd Llywodraeth Cymru yn gallu llunio ei rhagolygon ei hun, wrth roi trefniadau ar waith ar gyfer llunio rhagolygon annibynnol. Byddai rhagolygon sydd wedi'u llunio gan Lywodraeth Cymru yn agored i graffu annibynnol. Bydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol hefyd yn llunio'r holl ragolygon o drethi perthnasol llywodraeth y DU sydd eu hangen i weithredu'r model Cymaradwy ar gyfer treth dir y dreth stamp, y dreth dirlenwi a phob un o'r bandiau treth incwm."

4. Yn 2017-18 a 2018-19, lluniodd Llywodraeth Cymru ei rhagolygon ei hun ar gyfer trethi datganoledig Cymru, y craffwyd arnynt yn annibynnol gan Ysgol Busnes Prifysgol Bangor a roddodd sicrwydd yn eu cylch. Cyhoeddwyd adroddiadau sicrwydd gan Ysgol Busnes Bangor ochr yn ochr â Chyllidebau Drafft a Therfynol Llywodraeth Cymru ym mis Hydref a mis Rhagfyr y naill flwyddyn a'r llall.

5. O 2019-20 ymlaen, bydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn cyhoeddi rhagolygon annibynnol ar gyfer refeniw o drethi datganoledig Cymru er mwyn iddynt fwydo i mewn i broses Cyllideb Llywodraeth Cymru.

*Trethi yng Nghymru*

6. Datganolodd Deddf Cymru 2014[1] a Deddf Cymru 2017[2] bwerau trethu i Lywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Datganolwyd treth dir y dreth stamp a threth dirlenwi yn llwyr gan Ddeddf 2014. O fis Ebrill 2018 ymlaen, disodlodd treth trafodiadau tir dreth dir y dreth stamp a disodlodd treth gwarediadau tirlenwi y dreth dirlenwi.

7. Mae Deddf Cymru 2014 a Deddf Cymru 2017 hefyd yn darparu ar gyfer datganoli treth incwm yn rhannol, gan alluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i bennu cyfraddau treth ym mhob band treth incwm. Caiff y ddarpariaeth hon ei gweithredu o fis Ebrill 2019 ymlaen.

8. Bydd angen llunio rhagolygon ar gyfer y tair treth Gymreig hyn er mwyn iddynt fwydo i mewn i Gyllideb Llywodraeth Cymru.

## Y trefniadau arfaethedig ar gyfer llunio rhagolygon

### Rôl Llywodraeth Cymru

9. Bydd Llywodraeth Cymru yn paratoi cyllideb ddrafft a therfynol bob blwyddyn, sy'n defnyddio rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o refeniw ar gyfer trethi datganoledig Cymru.

10. Caiff rhagolygon o refeniw a chostau polisi ar gyfer y trethi datganoledig eu llunio gan swyddogion o'r proffesiynau dadansoddol o fewn Llywodraeth Cymru yn ôl yr angen i'w hystyried gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu esboniadau ar gyfer y rhagolygon hyn, gan gynnwys y defnydd o benderfynyddion sy'n benodol i Gymru.

11. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn bresennol ym mhob cyfarfod perthnasol a gynhelir er mwyn herio rhagolygon/costau polisi a byddant yn prosesu newidiadau i'r rhagolygon hynny a'r costau yn unol â chais Pwyllgor Cyfrifoldeb Cyllidebol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol.

12. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn darparu rhagolygon wedi'u diweddaru ar gyfer trethi Cymru yn ôl y gofyn ar gyfer yr *Economic and Fiscal Outlook*, a gyhoeddir gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, yn ogystal â chyllidebau drafft a therfynol Llywodraeth Cymru. Fel arfer, bydd hyn yn golygu llunio pedwar cylch o ragolygon. Mae'n rhaid dychwelyd y rhagolygon hyn o fewn y terfynau amser y cytunwyd arnynt.

13. Bydd y rhagolygon terfynol yn adlewyrchu barn y Pwyllgor Cyfrifoldeb Cyllidebol ar yr hyn sy'n gyfystyr â rhagolwg rhesymol a chanolog.

14. Caiff rôl Llywodraeth Cymru ei chyflawni gan Drysorlys Cymru.

---

[1] http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2014/29/contents/enacted
[2] http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2017/4/contents/enacted

## Rôl y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol

15. Bydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn asesu rhagolygon ar gyfer trethi datganoledig Cymru, gan wneud y cyfryw newidiadau ag sy'n angenrheidiol, yn ei barn hi. Pan fydd yn fodlon bod y rhagolygon yn rhesymol ac yn ganolog, ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, bydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol wedyn yn berchen ar y rhagolygon a bydd yn eu cyhoeddi. At hynny, bydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn gwneud sylwadau ar unrhyw risgiau ac ansicrwydd sy'n gysylltiedig â'r rhagolygon.

16. Bydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn darparu ar gyfer cost newidiadau i gyfraddau treth incwm Cymru.

17. Bydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn cyflawni'r dyletswyddau hyn yn annibynnol, gan arfer disgresiwn llwyr o ran y fethodoleg a'r farn a ddefnyddir i wneud asesiadau a chynnwys cyhoeddiadau'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (yn amodol ar fodloni'r gofynion sylfaenol a nodir yn y Cylch Gorchwyl hwn).

18. Bydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn darparu penderfynyddion macroeconomaidd (er enghraifft chwyddiant prisiau tai, y cynnydd mewn cyflogau ac ati) i Lywodraeth Cymru yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni i'w defnyddio gan swyddogion wrth lunio'r rhagolygon cyllidol perthnasol. O dan y cytundeb hwn, ni fydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn ceisio gweithredu model macroeconomaidd sy'n benodol i economi Cymru.

## Cyhoeddiadau a llinell amser ddangosol

19. Caiff dau gyhoeddiad eu llunio: un ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru (ym mis Hydref fel arfer) ac un ochr yn ochr â'r Gyllideb Derfynol (ym mis Rhagfyr/Ionawr fel arfer). Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y llinell amser ddangosol isod.

*Tabl 1: Llinell Amser Ddangosol*

| **Cyfnod / digwyddiad** | **Gweithgaredd** |
|---|---|
| Gwanwyn | Rhagolwg Economaidd a Chyllidol y Gwanwyn Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol gyda rhagolygon wedi'u diweddaru ar gyfer trethi datganoledig. |
| Haf | Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r model, ac ymgysylltu â'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ynghylch methodolegau posibl ar gyfer cyfrifo costau polisi<br><br>Ymweliad ymgysylltu'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol â Chymru er mwyn cytuno ar fethodolegau, gan gynnwys dod i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid o bosibl a chyfarfod ag uwch swyddogion/gweinidogion os bydd angen.<br><br>Erbyn diwedd yr haf (mis Medi), pob datblygiad modelu mawr a phob methodoleg ar gyfer cyfrifo costau polisi i'w cytuno/ardystio gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. |
| Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru | Y rhagolygon ar gyfer y Gyllideb Ddrafft sy'n seiliedig ar benderfynyddion economaidd y Gwanwyn y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, ond sy'n ystyried y data alldro diweddaraf ar gyllid cyhoeddus.<br><br>Caiff opsiwn terfynol Llywodraeth Cymru o ran costau polisi ei ardystio gan |

| | |
|---|---|
| | y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol cyn y Gyllideb Ddrafft.<br><br>Yr unig newidiadau y dylid eu gwneud ar y cam hwn yw'r diweddariad terfynol ar gyfer data yn ystod y flwyddyn (lle y bo'n briodol) ac ymgorffori'r opsiwn terfynol o ran costau polisi, drwy ddefnyddio'r fethodoleg a ardystiwyd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol.<br><br>**Cyhoeddiad 1:** Cyhoeddir adroddiad rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ochr yn ochr â'r Gyllideb ddrafft, gan esbonio'r farn a luniwyd mewn perthynas â'r rhagolygon ac ardystio costau polisi. |
| Hydref | Cyhoeddir Rhagolygon Economaidd a Chyllidol yr Hydref gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ochr yn ochr â Chyllideb y DU (yn unol ag arfer presennol). Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn darparu rhagolygon wedi'u diweddaru ar gyfer y trethi datganoledig gan ystyried penderfynyddion economaidd newydd ac unrhyw ffactorau perthnasol eraill. |
| Cyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru | Y rhagolygon ar gyfer y Gyllideb Derfynol sy'n seiliedig ar Ragolygon Economaidd a Chyllidol yr Hydref a gyhoeddir gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol.<br><br>Ardystir unrhyw gostau polisi newydd gan Lywodraeth Cymru cyn y Gyllideb derfynol os bydd amser yn caniatáu. Os na fydd yn bosibl ardystio methodolegau costau polisi am nad oes digon o amser ar gael at ddibenion craffu, bydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn esbonio unrhyw ansicrwydd ynghylch costau polisi Llywodraeth Cymru. Caiff y rhain eu hailystyried ar adeg y rhagolygon nesaf.<br><br>**Cyhoeddiad 2:** Cyhoeddir adroddiad rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ochr yn ochr â'r Gyllideb ddrafft, gan esbonio'r farn a luniwyd mewn perthynas â'r rhagolygon ac ardystio costau polisi, neu, os bydd angen, esbonio'r rhesymau pam na chafodd costau polisi eu hardystio. |

**Ymgysylltu yng Nghymru**

20. Bydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn ymgysylltu ag unigolion a sefydliadau priodol (yn enwedig Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru) ddwywaith yn ystod y flwyddyn ariannol.

- *Mai/Mehefin/Gorffennaf* **–** Yn dilyn Datganiad y Gwanwyn gan Lywodraeth y DU bydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn cynnal cyfarfodydd bord gron blynyddol gydag academyddion a phobl eraill â diddordeb yng Nghymru. Bydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol hefyd yn briffio Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

- *Tachwedd/Rhagfyr/Ionawr* – Yn dilyn Cyllideb yr Hydref gan Lywodraeth y DU, bydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidol yn rhoi tystiolaeth i Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

21. Bydd dadansoddwyr yn Nhrysorlys Cymru a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn cadw mewn cysylltiad agos drwy gydol y flwyddyn, fel y nodir yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.

### Costau a threfniadau ariannu

22. Ymdrinnir â'r gost a'r trefniadau ariannu mewn dogfen ar wahân i'w chynnwys yn y fframwaith cyllid.

### Y Gymraeg

23. Bydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn sicrhau y caiff ei dau adroddiad a lunnir i ategu Cyllidebau Drafft a Therfynol Llywodraeth Cymru eu cyfieithu i'r Gymraeg a'u cyhoeddi ar yr un pryd â'r fersiynau Saesneg.

## Adolygu

24. Dros haf 2020 bydd Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn adolygu'r *Cylch Gorchwyl* hwn ar y cyd – yn enwedig yr adnoddau a ddyrannwyd – yng ngoleuni profiadau yn y flwyddyn weithredu gyntaf (2019-20).

HM Treasury

27 Mawrth 2019

**Dogfen y Fframwaith Ariannol – Cytuno ar y setliad ariannol rhwng Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol**

1. Bydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn llunio ac yn cyhoeddi rhagolygon annibynnol ar gyfer refeniw o drethi datganoledig Cymru ar gyfer Cyllideb 2019-20 Llywodraeth Cymru ac o hynny allan. Bydd hyn yn gyson â'r trefniant a nodir yn y Cylch Gorchwyl ac yn unol â fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru.

2. Mae'r ddogfen hon yn nodi manylion y setliad ariannol rhwng Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a fydd yn cwmpasu cost darparu'r rhagolygon ar gyfer trethi Cymru gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol i Lywodraeth Cymru. Daw i rym o 1 Ebrill 2019.

**Manylion**

3. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i roi arian i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol er mwyn talu'r costau sy'n gysylltiedig â chost llunio rhagolygon ar gyfer trethi Cymru, paratoi adroddiadau yn Gymraeg a Saesneg a gyhoeddir ar adegau a bennir gan amserlen Cyllideb Cymru a chynyddu ei phresenoldeb yng Nghymru.

4. Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol wedi amcangyfrif y bydd angen tua £100,000 o arian ychwanegol arni bob blwyddyn gan Lywodraeth Cymru. Cytunir ar yr union gost ym mhob blwyddyn ariannol rhwng y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a Llywodraeth Cymru cyn i'r flwyddyn ddechrau. Ceir dadansoddiad manwl o'r gost y cytunwyd arni yn 2019-20 yn Nhabl 1 o'r atodiad i'r ddogfen hon.

5. Caiff arian Llywodraeth Cymru ei dalu i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol drwy Drosglwyddiad Cyllideb bob blwyddyn. Am mai un o gyrff hyd braich Trysorlys EM yw'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, caiff y swm y cytunwyd arno ei drosglwyddo gan Lywodraeth Cymru i Drysorlys EM a chaiff ei anfon ymlaen wedyn i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, cyn dechrau'r flwyddyn ariannol, fel rhan o broses y Prif Amcangyfrifon. Caiff y trosglwyddiad ei gofnodi fel llinell ar wahân yn amcangyfrif cyllidebol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol.

6. Yn ogystal â'r ddogfen hon, bydd Cadeirydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn ysgrifennu bob blwyddyn at Y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd, Llywodraeth Cymru a Chadeirydd Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan nodi sut mae'r arian gan Lywodraeth Cymru wedi cael ei ddefnyddio gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol i fodloni gofynion y Cylch Gorchwyl.

7. Caiff y fframwaith ariannol hwn ei adolygu'n rheolaidd yn ôl yr angen ac ar gais Llywodraeth Cymru neu'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol.

**Atodiad**

Tabl 1: Dadansoddiad o gostau'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn 2019-20

| | £ |
|---|---|
| **Cyfanswm costau staff** | 72,300 |
| **Costau nad ydynt yn gysylltiedig â staff** | |
| Costau swyddfeydd | 11,100 |
| Teithio a Llety | 3,600 |
| Argraffu, y wefan a chyfieithu | 11,000 |
| Hyfforddi a datblygu | 2,000 |
| **Cyfanswm y costau** | **100,000** |

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

HM Treasury, 1 Horse Guards Road, London, SW1A 2HQ

Llyr Gruffydd AM
Chair of the Finance Committee
National Assembly for Wales
Cardiff, CF99 1NA

6 June 2019

Dear Llyr,

**INVITATION TO ATTEND THE NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES'S FINANCE COMMITTEE SESSION ON WELSH GOVERNMENT CAPITAL FUNDING SOURCES**

1. Thank you for your letter of 3 May on your Committee's inquiry on the Welsh Government's capital funding sources. As I outlined previously, it would be more appropriate for the responsible Welsh Government minister to attend.

2. There are a number of publications that may inform the Committee's considerations. The Statement of Funding Policy sets out how the UK Government funds the devolved administrations and highlights other sources of funding available when they set spending plans. This is due to be updated at the upcoming Spending Review.

3. It may also be useful to consider the fiscal framework agreed between the UK and Welsh Governments in December 2016, which sets out agreed capital borrowing and reserve limits, and Block Grant Transparency publications, which document changes in block grant funding from Spending Review 2015 until last year's Budget.

4. As always, my officials are on hand if there is any additional information or clarification that you require on the issue of funding for the Welsh Government.

Best wishes,

RT HON ELIZABETH TRUSS MP

Annex – Links to publications

| | |
|---|---|
| Statement of Funding Policy | https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/479717/statement_of_funding_2015_print.pdf |
| Welsh Government Fiscal Framework | https://www.gov.uk/government/publications/the-agreement-between-the-welsh-government-and-the-united-kingdom-government-on-the-welsh-governments-fiscal-framework |
| Block Grant Transparency | https://www.gov.uk/government/publications/block-grant-transparency-december-2018 |